

CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
13 Gorffennaf 2022
AM 7.30 TRWY ZOOM

YN BRESENNOL: Cyng I Roberts, P Roberts, R G Parry, S Jones, E Law-Shui Nicholson, J Earnshaw, D Fowlie (Cyngor Sir), G Owen (Clerc),	
YMDDIHEURIADAU: Cyng G Parry, E Huws, H N Evans	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts.
2	DATGAN DIDDORDEB – Dim
3	DERBYN COFNODION Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 08.06.22. Cyng R G Parry yn cynnig a Cyng P Roberts yn eilio.
4	MATERION YN CODI O'R COFNODION
4.1	Lon y Fynwent – Dywedodd y Clerc bydd y Gwaith yn cael ei wneud yr wythnos nesaf
4.2	Grant ar gyfer y maes Chwarae – mewn llaw
4.3	Raffle – Trafod yn y cyfarfod nesaf
4.4	Parc Solar – Bydd Cyng H N Evans a Cyng I Roberts yn cynrychioli y Cyngor Cymuned yn y sesiynau gwrandawriad
4.5	Gor-yrru Bryngwran – Gofynwyd I'r Clerc dod a'r mater at sylw yr Heddlu unwaith eto
4.6	Baw cwn - Mae'r Clerc wedi derbyn anfoneb ar gyfer y peiriannau dosbarthu. Byddant yn cael eu gosod ar ôl talu'r anfoneb.
4.7	Cwyn Mrs A Williams - Mae'r mater hwn wedi'i ddatrys
4.8	Bin y Fynwent - Mae Humphreys Waste wedi cynnig gwagio'r bin yn y fynwent am £10.50 yr wythnos. Cytunwyd i ofyn i'r bin gael ei wagio bob yn ail wythnos.
4.9	Tap mynwent Salem - Mae'r swyddogion yn fodlon i'r cyngor cymuned drefnu gosod tap. Byddant yn ad-dalu'r cyngor. Bydd y Clerc yn cysylltu â phlymwr
4.10	Diffibriliwr - Cytunwyd i symud y mater hwn i'r cyfarfod nesaf gan nad oedd y Cyng H N Evans yn bresennol
Llofnod.....Cadeirydd 14.09.22	

4.11	Parcio yn y Stryd Fawr – Mae’r Cadeirydd wedi siarad gyda’r Heddlu a Phrifyrdd, Cyngor Sir Ynys Môn ond does neb wedi dod yn ôl ato. Bydd y Clerc yn gofyn I’r Adran Briffyrdd am gyfarfod safle.
4.12	Ffens y cae Chwarae – mewn llaw
5	ADRODDIAD y CADEIRYDD – Mae’r hysbyswrdd wrth fynedfa’r ysgol yn pydru. Gofynnwyd I’r Clerc gael pris am hysbyswrdd ar gyfer y cyfarfod nesaf.
6	GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON
	Cyfarwyddwr Busnes y Cyngor
	Pwyllgor Safonau y Cyngor
6.1	Cynrychiolwyr y Cynghorau Tref a Chymuned ar Pwyllgor – Bydd y Cadeirydd Cyng I Roberts yn rhoi ei enw ymlaen
	Priffyrdd
6.2	Ffens y maes Chwarae – Neges gan yr Adran Briffyrdd I ddweud fod y mater wedi ei anfon ymlaen I’r Adran Eiddo
7	GOHEBIAETH YCHWANEGOL
7.1	Humphreys Waste – gweler 4.8
7.2	PEDW Fferm Solar Traffwll – gweler 4.4
7.3	Adroddiad Rospa Gorffennaf 2022 – nid oes unrhyw ganfyddiadau risg uchel
7.4	Cyng N Evans – problemau traffic Engedi – Cynigiodd y Cyng Fowlie fynd â’r mater I fyny gyda’r Heddlu
8	MATERION ERAILL
8.1	Y Gofeb – Dywedodd y Cadeirydd fod angen paentio’r rheiliau. Bydd yn cael dyfynbris.
8.2	Yr Heddlu – cyfarfod I’r cyfarfod nesaf – Bydd y Clerc unwaith eto yn gwahodd yr Heddlu i’r cyfarfod nesaf.
9	MATERION ARIANNOL
	Cytunwyd i dalu:
9.1	Rospa £92.40
9.2	Yswiriant Zurich £482.24
9.3	Dosbarthwyr bagiau cŵn £37.50
9.4	Rhent maes Chwarae £80.24
	Llofnod.....Cadeirydd 14.09.22

10	MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF
10.1	Cynrychiolwyr y pwyllgorgorau
	Llofnod.....Cadeirydd 14.09.22